



Ein cyf/Our ref: CG/PO/153/2024

Mike Hedges AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

22 Mai 2024

Annwyl Mike

Diolch am y llythyr oddi wrth eich Pwyllgor, dyddiedig 24 Ebrill 2024, yn rhoi manylion yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a Senedd y DU ynglŷn â'r dull o ymdrin â deddfwriaeth ddwyieithog.

Rwy'n hynod falch nodi bod pwyllgorau perthnasol Senedd y DU wedi cadarnhau nad oes rhwystrau gweithdrefnol rhag gosod offerynnau dwyieithog ger eu bron.

Rydym wedi ymrwmo i wella hygyrchedd y gyfraith ac fel rhan o'n gweledigaeth ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg fel iaith y gyfraith, rydym am weld pob offeryn statudol, gan gynnwys cyd-offerynnau ac offerynnau cyfansawdd, yn cael eu gwneud yn ddwyieithog. Mae lle ar gyfer cyd-offerynnau ac offerynnau cyfansawdd ac, yn achos cyd-offerynnau, mae'r pŵer galluogi yn ei gwneud yn ofynnol i'r offeryn gael ei wneud fel hyn. Maent hefyd yn fanteisiol oherwydd eu bod yn sicrhau cysondeb o ran dull ac amseru pan fydd gorgyffwrdd gweithredol trawsffiniol sylweddol.

Fodd bynnag, oni bai bod Llywodraeth y DU am newid ei safbwynt hirsefydlog mai yn Saesneg yn unig y dylid gwneud cyd-offerynnau, a hyd nes i hynny ddigwydd, cawn ein llesteirio gan rwystr sylweddol rhag gwneud cyd-offerynnau yn ddwyieithog. Mae'n destun siom mai cyfyngedig yw'r datrysiadau sydd ar gael inni ar gyfer newid hyn. Cafodd llythyr diweddaraf Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn ei rannu â'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2021 ac rwy'n amgáu copi ohono, er mwyn ichi allu cyfeirio ato yn hawdd.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu diddordeb parhaus yn y pwynt hwn, ac mae'r ymgysylltu rhyngom a Senedd y DU wedi bod yn dra defnyddiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Mick Antoni". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoni AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Lesley Griffiths MS

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Cardiff Bay

Cardiff

CF99 1NA

Email: Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

24 March 2021

Dear Lesley,

I have seen your letter of 11 March to the Parliamentary Under Secretary of State at the Department for Environment, Food and Rural Affairs regarding bilingual joint statutory instruments.

I welcome the constructive work that has taken place between your officials and those in DEFRA to prepare the joint Reservoirs Act (Panels of Chief Engineers) (Applications and Fees) Regulations 2021. Whilst DEFRA officials agreed to explore making this SI bilingually, this was always subject to discussions with my Department on the wider context.


The Government's well-established position is that joint statutory instruments should be made in English only. This is based on the important principle that legislators should be able to read and understand the full extent of the legislation that they are bringing into force. This principle applies equally to Ministers of the Crown and the UK Parliament and is irrespective of any assurances that the Welsh Government may be able to provide on the equivalence of the translation.

The Government remains firmly committed to supporting the Welsh language and DEFRA would be happy to ensure that stakeholders are aware of any separate Welsh translation that is made available by the Welsh Government. If your officials can provide a link to this, they will include it in any communications on this matter.

I am copying this letter to the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, the Parliamentary Under Secretary of State, the First Minister, the Counsel

General and the Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language. I am also providing a copy to the Senedd's Legislation, Justice and Constitution Committee in line with your original letter.

Yours sincerely,



David TC Davies MP
UK Government Minister for Wales
Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru